Adroddiad Blynyddol TUC Cymru
2006 - 2007

Llais Cymru yn y gwaith

WALES TUC CYMRU

Amcanion a staffio

Amcanion TUC Cymru:

- **Ymgyrchu am degwch yn y gweithle ac am gyfiawnder cymdeithasol gartref a thramor**
- **Hybu gwerth undebau llafur**
- **Cefnogi dysgu yn y gweithle**
- **Cefnogi ein hundebau llafur cysylltiedig**

Gyda'r undebau llafur cysylltiedig yn cynrychioli bron hanner miliwn o weithwyr, ni yw llais Cymru yn y gwaith.

Ysgrifennydd Cyffredinol

Felicity Williams

Polisi ac Ymgyrchoedd

Derek Walker	Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd	dwalker@tuc.org.uk
Chris Hartwell	Swyddog Cynorthwyol Ymchwil, Ymgyrchoedd a Threfnu	chartwell@tuc.org.uk
Val Kuck	Ysgrifennydd Gweinyddol	vkuck@tuc.org.uk
Natasha Hirst	Swyddog Prosiect Cydraddoldeb yn y Gwaith	nhirst@tuc.org.uk
Clare Stisted	Cynorthwy-ydd Gweinyddol	cstisted@tuc.org.uk

Addysg Undebau Llafur

Julie Cook	Pennaeth Addysg Undebau Llafur	jcook@tuc.org.uk
Jacquie Ivins*	Uwch Gynorthwyydd Gweinyddol	* yn y swydd tan fis Mai 2007
Marion Burke	Cynorthwyydd Gweinyddol	mburke@tuc.org.uk

(hefyd yn gweithio fel swyddog cefnogi prosiectau Cronfa Ddysgu Undebau Llafur Cymru)

Gwasanaethau Dysgu

Siân Cartwright	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu	scartwright@tuc.org.uk
Deri Bevan	Swyddog Datblygu De Cymru	dbevan@tuc.org.uk
Barbara Hale	Swyddog Datblygu Gogledd Cymru	bhale@tuc.org.uk
Mark Rees	Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru	mrees@tuc.org.uk
Kevin Williams	Swyddog Datblygu De Cymru	kwilliams@tuc.org.uk
Roger Jones	Swyddog Datblygu De Orllewin Cymru	rjones@tuc.org.uk
Linsey Shingles	Gweithiwr Prosiect	lshingles@tuc.org.uk
Katrina Wood	Gweithiwr prosiect	kwood@tuc.org.uk
Gareth Hathway	Cynorthwyydd Gweinyddol	ghathway@tuc.org.uk

TUC Cymru

Transport House
Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9SD

029 2034 7010
wtuc@tuc.org.uk
www.wtuc.org.uk

Am ragor o gopïau o'r adroddiad hwn cysylltwch â TUC Cymru.
Am ragor o wybodaeth ynglŷn â byd gwaith ewch i www.workSMART.org.uk
Mae hawlfraint y cyhoeddiad hwn ym meddiant y TUC oni nodir fel arall.

Lluniau clawr gan Phil Rees (trydydd o'r chwith) a Photolibrary Cymru (ar y dde)

John Burgham Felicity Williams

Rhagair

Yn ystod y flwyddyn mae TUC Cymru wedi parhau i lobïo ac ymgyrchu ar y materion sydd o bwys i aelodau undebau.

Mae economi Cymru yn ffynnu ac mae lefelau cyflogaeth yn parhau'n uchel. Fodd bynnag, mae ein sector gweithgynhyrchu yn dioddef. Rydym wedi gweld colli swyddi ar draws y sector a llawer o ymgyrchoedd gan undebau i achub swyddi, gan gynnwys ymgyrch â phroffil uchel i atal cau ffatri Burberry yn y Rhondda.

Erbyn hyn cyflogir 14% yn unig o holl weithwyr Cymru yn y sector gweithgynhyrchu, o'i gymharu â 20% ym 1999/2000. Cyhoeddwyd bod rhai swyddi newydd wedi eu creu yn ddiweddar, ond dirywio y mae'r sector at ei gilydd. Rydym wedi parhau i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud mwy i amddiffyn ein sector gweithgynhyrchu ac i wneud mwy i annog sector cyhoeddus Cymru i brynu eu nwyddau a'u gwasanaethau gan fusnesau lleol.

Rydym wedi sicrhau bod materion y gweithlu yn uchel ar agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru. O ganlyniad uniongyrchol i'n hymgyrchu, mae cytundeb partneriaeth yn bodoli erbyn hyn sy'n trafod y sector cyhoeddus cyfan sydd wedi ei ddatganoli yng Nghymru. Bwriad y cytundeb arloesol hwn yw cynnal y broses o ddiwygio trwy roi fframwaith i reoli newid a rhoi blaenoriaeth i faterion sy'n trafod y gweithlu. Lansiodd Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y cytundeb ym mis Mawrth 2007.

Rydym wedi hyrwyddo dysgu yn y gweithle ac wedi sicrhau cytundeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu'r agenda hon yn ystod y tair blynedd nesaf ledled Cymru.

Erys cydraddoldeb a pharch yn y gweithle yn egwyddorion sylfaenol i'n gwaith. Mae pwyllgorau cydraddoldeb y TUC wedi parhau i ddilyn eu hagendâu gydol y flwyddyn a daethom â'r gwaith hwn at ei gilydd trwy'r pwyllgorau cydraddoldeb ar y cyd. Cynorthwyodd yr ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog' i gynyddu'r momentwm tuag at gytundebau cyflog sy'n digwydd o'r diwedd mewn llywodraeth leol, gan symud at ddileu anghydraddoldeb cyflogau ar sail rhyw.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae Cymru yn wynebu etholiadau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cynulliad Cymru, a fydd yn derbyn pwerau newydd a chryfach. Pwyswn ar y llywodraeth i ddefnyddio'r pwerau hynny i hyrwyddo buddiannau pobl Cymru yn y gweithle ac yn y gymuned ill dau.

Mae TUC Cymru yn falch o hanes ei gyflawniadau wrth gydweithio â gwahanol lywodraethau yn olynol ers datganoli. Edrychwn ymlaen at barhau i ddylanwadu ar newidiadau er mwyn gwella ansawdd bywyd pob dinesydd.

John Burgham Llywydd
Felicity Williams Ysgrifennydd Cyffredinol

Ymgyrchu dros weithwyr yn y gwaith



Swyddi gweithgynhyrchu

Mae Cymru yn dal i golli swyddi cynhyrchu gyda chwmnïau fel LG Electronics a Dura Automotive Systems yn cau neu'n ail-leoli swyddi eleni. Collir swyddi yn sgil cystadleuaeth gan economïau â chyflogau isel yn Asia ac mewn mannau eraill, yn ogystal â phrisiau ynni uchel yma.

Mae TUC Cymru o'r farn y gall gweithgynhyrchu gael dyfodol tymor hir yng Nghymru os awn ati yn strategol, hoelio'r sylw ar wella sgiliau a chanolbwyntio ar ochr uwch, gwerth ychwanegol gweithgynhyrchu. Yn benodol, mae angen i ni nodi a chefnogi cwmnïau a diwydiannau strategol a fydd yn rhoi gwerth uchel i economi Cymru, sef y rhai sydd yn rhoi galluoedd, o'u colli, y byddai'n anodd eu hail-greu yn y dyfodol, neu'r rhai a fydd yn cael effaith sylweddol yn lleol trwy gefnogi nifer uchel o swyddi o ansawdd.

Dyna mae ein cystadleuwyr yn ei gwneud. O ganlyniad mae cwmnïau gweithgynhyrchu mewn sawl gwlad yn yr UE, fel Ffrainc a'r Almaen, yn llwyddo i gystadlu mewn economi fyd-eang.

Rydym wedi pledio'r achos hwn gyda gwleidyddion a llunwyr polisi yng Nghynulliad Cymru a Senedd y DU drwy'r flwyddyn, wrth roi tystiolaeth, er enghraifft, gerbron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. O ganlyniad uniongyrchol, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Fforwm Marchnata i ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector gweithgynhyrchu a hyrwyddo cymorth arbenigol i fusnesau. Caiff pob undeb cysylltiedig dri chynrychiolydd ar y Fforwm.

Sylw'r Undebau - O Dreorci i Bond Street

Cafodd yr ymgyrch i 'Gadw Burberry yn Brydeinig' o dan arweiniad y GMB, y gweithlu a'r cynrychiolwyr etholedig, sylw rhyngwladol. Cydlynodd y GMB brotestiadau yn Llundain, Paris, Strasbwrg, Efrog Newydd, Chicago a Las Vegas.

Rhoddodd sêr fel Tom Jones, Syr Alex Ferguson, Ioan Gruffudd, Charlotte Church, Emma Thompson, Rhys Ifans, Bryn Terfel, Tanni Grey Thompson a Steve Jones eu cefnogaeth i'r ymgyrch.

Llun chwith gan Photolibrary Cymru
Llun trwy garedigrwydd PSMW

Cytundeb partneriaeth newydd

Fis Mawrth, lansiodd Prif Weinidog Cymru y cytundeb partneriaeth cyntaf i Gymru ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bu TUC Cymru yn galw am gytundeb o'r fath er mwyn sicrhau ymroddiad gweithredol y gweithlu yn agenda diwygio cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r cytundeb yn rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid gyfrannu i'r broses o ddiwygio a chyflawni cynnydd trwy gydsyniad. Mae'r cytundeb hwn rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, GIG, TUC Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ehangach sydd wedi eu datganoli.

Adeiladu undebau cryfach

Mae arwyddion clir bod aelodaeth undebau ar i fyny unwaith eto. Mae dwy ran o dair yr undebau sy'n gysylltiedig â'r TUC wedi tyfu er 1997. Ond mae mwy i'w wneud a mwy y dylem ei wneud. Dyna pam mae TUC yn neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer cynorthwyo undebau i gynyddu eu haelodaeth.

Bu fforwm trefnu TUC Cymru yn cyfarfod er mis Mehefin er mwyn dwyn y gwaith hwn yn ei flaen. Canolbwyntiodd ar helpu undebau i ddatblygu sgiliau trefnu a strategaethau, rhoi'r newyddion diweddaraf o'r farchnad lafur yng Nghymru i undebau a helpu i rannu arfer da.

Ym mis Chwefror cynhaliom ein cynhadledd gyntaf ar drefnu. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ymchwil i'r pynciau sy'n wynebu gweithwyr busnesau bach ledled Cymru, ac rydym wedi cynnal cyrsiau newydd i swyddogion a chynrychiolwyr.

Dyletswydd unigryw ar y Cynulliad i ymgynghori

O ganlyniad i lobïo gan TUC Cymru, mae'r Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd yn gofyn i Weinidogion Cymru ystyried buddiannau gweithwyr Cymru, ac nid busnesau yn unig, wrth lunio polisïau. Mae hwn yn ofyniad unigryw yn y DU a bydd yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n digwydd ar ôl ystyried buddiannau pawb. Rydym wedi cydweithio â phartneriaid cymdeithasol eraill gydol y flwyddyn er mwyn datblygu cynllun a fydd yn rhoi'r trefniadau gweithio newydd hyn ar waith.

Sylw'r Undebau – Brwydro i amddiffyn swyddi

Mae Cyngor Cymru Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn flwydd oed. Treuliwyd llawer o'r flwyddyn gyntaf yn brwydro i amddiffyn swyddi a chynnal y gwasanaethau presennol. Bu'n un o flaenoriaethau'r Cyngor i lobïo gwleidyddion am bolisi ar gyfer y cyfryngau er mwyn datblygu diwydiant cryfach i'r cyfryngau yma yng Nghymru. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod ar gyflogau i dynnu sylw at faterion cyflogau isel ac amodau gweithio gwael.

O'r chwith i'r dde: Cynhadledd Drafnidiaeth TUC Cymru yn Abertawe; Rhodri Morgan AC Prif Weinidog, Sue Essex AC Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a Felicity Williams TUC Cymru yn arwyddo'r cytundeb partneriaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill a ddatganolwyd; Gweithwyr Burberry o Dreorci yn gwrthdystio tu allan i Burberry yn Bond Street, Llundain; Delwedd o 'Ddiwrnod Gweithio Eich Horiau Cywir' yn Chwefror.

Cynyddu cyfleoedd dysgu

Mae tîm Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru yn cynorthwyo undebau i ddenu aelodau i fentrau dysgu yn y gweithle ledled Cymru.

Sut mae dysgu undebau yn gweithio

Rydym yn cydweithio ag undebau er mwyn nodi'r gweithleoedd hynny, neu gyfres o weithleoedd, lle mae modd datblygu partneriaeth â'r cyflogwr. Mae'r Undebau yn penodi Cynrychiolwyr Dysgu Undeb (CDUwyr) sydd wedyn yn cael hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu swydd. Ar y cychwyn, bydd hyn yn cynnwys arolwg i ddadansoddi'r anghenion dysgu lle gofynnir i weithwyr nodi'r math o ddysgu sydd o ddiddordeb iddynt. Yna caiff yr undeb wneud cais am nawdd ariannol gan Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) y Cynulliad er mwyn teilwra rhaglen ddysgu a fydd yn gweddu i anghenion y gweithwyr.

Os llwyddir i ennill nawdd ariannol gan WULF, bydd y rhaglenni ar ffurfiau gwahanol, gan gynnwys sefydlu isadeiledd dysgu yn y gweithle fel arfer. Mae'n cynnwys sefydlu canolfan ddysgu yn y gweithle yn aml. Mae nawdd ariannol WULF yn cefnogi darparu cyrsiau, sy'n atgyfnerthu diwylliant dysgu i undebau, gweithwyr a chyflogwyr.

Ffurfiolir hyn trwy sefydlu cytundeb dysgu yn y gweithle, sy'n cyfundrefnu swydd, swyddogaeth a chyfrifoldebau'r CDUwyr ac yn sicrhau bod dysgu yn parhau ar frig agenda'r gweithle.

Top: Wojciech Paszek yn siarad yng Nghynhadledd Cynrychiolwyr Dysgu Undebau.

De uchod: Cynrychiolwyr yng Nghynhadledd CDU.

Ar y dde: Dr Heather Graham, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru a Felicity Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru yn arwyddo'r Memoranwm Dealltwriaeth rhwng TUC Cymru a'r Brifysgol Agored yn Ebrill. Mae'r MD yn amlinellu sut mae'r ddau fudiad yn bwriadu cyd-weithio yn y dyfodol, a sut y gall aelodau undeb ledled Cymru, sy'n newydd i astudio gyda'r Brifysgol Agored, gael 10% o ostyngiad ar amrediad eang o gyrsiau.

Prosiectau addysg undebau

Rhoddodd prosiect TULiP Unsain yn Sir Benfro a Cheredigion gyfle i 1,500 o weithwyr cyngor ddewis rhwng amrywiaeth o opsiynau hyfforddi, er enghraifft, mathemateg, TG, Cymraeg yn y gweithle, rheoli straen, cyfathrebu effeithiol, cymorth cyntaf a phendantrwydd. Ni fyddai'r hyfforddiant hwn wedi digwydd heb gymorth yr undebau. Yn sgil ariannu pellach gan y Cynulliad, caiff arfer gorau'r prosiect ei drosglwyddo i awdurdodau lleol ledled de Cymru.

Mae prosiect Mynd i'r Afael â Sgiliau Sylfaenol y PCS yn asesu anghenion sgiliau sylfaenol gweision sifil Cymru ac yn mynd i'r afael â'r rhain trwy gyfeirio unigolion at gyrsiau priodol. Hyfforddwyd CDUwyr er mwyn cynorthwyo aelodau i nodi eu hanghenion sgiliau.

Sefydlodd y PCS ganolfan ddysgu yn y swyddfeydd trethi yn Llanisien. Ers ei sefydlu yn 2003, darparodd y ganolfan ddysgu ar-lein i 500 o staff sy'n gweithio i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar draws Cymru. Ymhlith y cyrsiau, cafwyd rhai ar ieithoedd, ffotograffiaeth ddigidol, sgiliau sylfaenol a chyfrifiadureg.

Darparodd prosiectau Amicus o dan yr enw Sgiliau Sylfaenol a'r Agenda Newid a Chanolfannau Addysgu wrth Galon gyrsiau ledled Cymru gan amrywio o TG i DIY a chynnal a chadw'r cartref. Daeth llif o geisiadau ar gyfer y prosiectau, ac maent wedi helpu dros bedwar cant o aelodau i ymuno â byd addysg. Mae prosiect ar fin dechrau i ailhyfforddi gweithwyr yn y sector gweithgynhyrchu ar gyfer eu cyflogadwyedd yn y dyfodol wrth wynebu colli gwaith.

Mae prosiect Sgiliau Sectorau Hanfodol y TGWU yn cydweithio mewn partneriaeth â chwe chyngor sgiliau sector i ddarparu sgiliau'n uniongyrchol i'r gweithle. Nod y prosiect yw datblygu cyflogwyr 'arweiniol' ar draws pob un o chwe phrif sector yr undeb (bwyd a diod, peirianneg, logisteg, trafnidiaeth teithwyr, lletygarwch a diwydiannau sy'n seiliedig ar y tir). Mae'r prosiect yn tynnu sylw at ffyrdd newydd y gall agenda ddysgu undebau ymwneud â chylch gorchwyl ehangach datblygu'r gweithlu y cynghorau sgiliau sector, ac mae wedi llwyddo i ddenu deuddeg cyflogwr hyd yn hyn.

Gardd TUC Cymru

Noddodd TUC Cymru ardd yn y Sioe Arddwriaethol Frenhinol Caerdydd fis Ebrill. Noddom fyfyrwyr dylunio gerddi Coleg Pencoed i ddylunio gardd i TUC Cymru ar y thema dysgu ac amrywiaeth.

Lluniau gan Phil Rees

Hyrwyddo cydraddoldeb



Yr Ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog'

Bu'n flwyddyn dyngedfennol am fynd i'r afael â'r bwlch cyflogau yn y sector cyhoeddus. O'r diwedd, mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o ran cyflogau sy'n bodoli ers tro. Canolbwyntiodd yr ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog' eleni ar gynyddu'r pwysau yn y sector cyhoeddus am gydraddoldeb cyflogau. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid ymgyrchu daethom â chynrychiolwyr etholedig, Prif Weithredwyr, rheolwyr AD a chynrychiolwyr undebau o bob cwr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru at ei gilydd i roi cyngor arbenigol, cefnogaeth a gwybodaeth drwy'r flwyddyn. Partneriaeth yw'r ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog' rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru.

CD-Rom Dysgu o Bell ar Gyflog Cyfartal

Datblygwyd CD-Rom eleni fel rhan o'r ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog'. Mae wedi ei gynllunio i helpu cynrychiolwyr yn y gweithle i ddeall sut mae'r bwlch cyflog yn digwydd a'r hyn a ddywed y gyfraith. Mae hefyd yn esbonio'r hyn yw adolygiadau cyflog a pham y mae'n angenrheidiol.

Cydraddoldeb rhyw

Parhaodd Pwyllgor Menywod TUC Cymru i ganolbwyntio ar faterion sy'n trafod gofalwyr, mynd i'r afael â cham-drin yn y cartref a rhwystro masnachu menywod a phlant. Bu'r ymgyrchu yn erbyn cam-drin yn y cartref yn hynod lwyddiannus ac yn gyfrifol am sicrhau grant o £24,000 gan y Cynulliad i sefydlu llinell gymorth ddynodedig i fenywod.

Herio hiliaeth

Yng Nghynhadledd Herio Hiliaeth flynyddol TUC Cymru, a gynhaliwyd yn Wrecsam, llofnododd TUC Cymru ddatganiad ar y cyd â Chyngor Mwslemiaid Cymru. Mae'r cytundeb yn golygu gweithio ar y cyd rhwng y ddau sefydliad er mwyn mynd i'r afael ag Islamoffobia a hyrwyddo aelodaeth undebau llafur ymhlith y gymuned Fwslemaidd fel o ffordd orau o ddelio â gwahaniaethu yn y gweithle.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae TUC Cymru yn cydweithio â Friends of Searchlight Cymru a grwpiau gwrth-ffasgaidd eraill yn ystod ymgyrch etholiadau'r Cynulliad yn erbyn pleidiau adain dde eithafol. Mae TUC Cymru yn ysgrifennu at ymgeiswyr cyn etholiadau'r Cynulliad a gofyn iddynt lofnodi 'Compact Etholiadol', a fydd yn eu rhwymo i sicrhau na chaiff unrhyw eiriau na gweithredoedd eu defnyddio yn ystod yr ymgyrch a fydd yn annog camwahaniaethu, yn ysgogi casineb hiliol neu grefyddol na'n arwain at ragfarn ar sail hil, cenedl neu grefydd.

Cydraddoldeb i bobl lesbaidd a hoyw

Ymgyrchodd Pwyllgor Pobl Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol TUC Cymru dros beidio ag eithrio sefydliadau crefyddol o'r ddeddfwriaeth newydd sy'n gwahardd gwahaniaethu wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau i bobl lesbaidd, hoyw a deurywiol. Cyfrannodd y gwaith at ymgyrch lwyddiannus yn y DU i atal y Llywodraeth rhag caniatáu eithriadau.

Prosiect Cydraddoldeb yn y Gwaith

Mae prosiect Cydraddoldeb yn y Gwaith TUC Cymru yn cefnogi undebau i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Mae'n brosiect dwy flynedd a arweinir gan TUC Cymru mewn partneriaeth â'r tri chomisiwn cydraddoldeb (DRC, CRE a EOC) yn ogystal â Stonewall Cymru ac Age Concern. Caiff nawdd ariannol gan Gronfa Moderneiddio Undebau'r Adran Masnach a Diwydiant a dyma un o brosiectau model rownd un y gronfa.

Codi ymwybyddiaeth am hawliau cyfartal

Mae'r prosiect yn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ymhlith undebau llafur, gweithwyr a chyflogwyr am hawliau newydd ynghylch cydraddoldeb i weithwyr a rhai sy'n bodoli eisoes. Lansiwyd gwefan eleni, www.equalatwork.org, sy'n borth at wybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn y gweithle. Mae ymgyrchoedd posteri, er enghraifft am y rheoliadau newydd am wahaniaethu ar sail oedran, wedi gwella ymwybyddiaeth pobl o'u hawliau yn y gwaith.

Adeiladu gallu

Mae'r prosiect hwn yn cynyddu gallu undebau llafur i fargeinio â chyflogwyr ar faterion cydraddoldeb. Datblygwyd cwrs newydd ar gyfer cynrychiolwyr a chaiff ei roi ar brawf yn ystod Haf 2007. Mae'r cwrs hwn yn mynd i roi gwybodaeth i gynrychiolwyr am y gyfraith ar wahaniaethu. Bydd yn helpu cynrychiolwyr i wneud gwahaniaeth trwy ddatblygu sgiliau bargeinio ar faterion cydraddoldeb.

Mae mwy na 25 o gynrychiolwyr yn y gweithle wedi cwblhau cwrs a ddatblygwyd â Phrifysgol Caerdydd ar gynrychioli aelodau mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth mewn achosion o wahaniaethu. Cynigir y cwrs yng Ngogledd Cymru yn awr gyda Phrifysgol Bangor.

Y flwyddyn nesaf

Bydd y prosiect hwn yn cynnal ymchwil i gydraddoldeb yn y gweithle yng Nghymru. Hon yw'r ymchwil gyntaf o'i math a chaiff prosiectau peilot arloesol eu cefnogi, fel gweithio traws-strandiau. Cynhelir sawl seminar ledled Cymru y flwyddyn nesaf i ddod â chyflogwyr a chynrychiolwyr undebau at ei gilydd er mwyn cytuno ar gynlluniau gweithredu ar y cyd.

Barry Clarke, o gwmni cyfreithwyr Russell Jones & Walker, a Vaughan Gething, o gwmni cyfreithwyr Thompsons, yn siarad yn seminar Gwerthuso Swyddi 'Tâl Cyfartal, Gwerth Cyfartal' yn Chwefror.

Llun gan Natasha Hirst

Equal at Work
Cyfartal yn y Gwaith

Cynorthwyo cynrychiolwyr undebau i gyflawni i aelodau

Mae rhaglen graidd o gyrsiau ar gyfer cynrychiolwyr undebau yn dal i redeg ar draws ein pedair canolfan astudio undebau llafur, gan gynnig cyrsiau ar gyfer cynrychiolwyr undebau, cynrychiolwyr iechyd a diogelwch a chynrychiolwyr dysgu undebol.

Llun gan Natasha Hirst

Mewn partneriaeth â'r Cynulliad

Ym mis Rhagfyr 2006 cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y contract ar gyfer gweithgarwch dysgu am y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn caniatáu i ni:

- **barhau i gynorthwyo gyda ffioedd y cyrsiau i'r holl gynrychiolwyr undeb**
- **datblygu deunyddiau cyrsiau yn ôl yr angen**
- **mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol cynrychiolwyr undebau sy'n mynychu ein rhaglen o gyrsiau**
- **nodi a rhoi tystiolaeth o effaith addysg undebau llafur yn y gweithle**
- **datblygu llwybrau i undebwyr llafur fynd i addysg uwch**
- **datblygu rhwydweithiau rhagoriaeth wedi'u seilio o gwmpas canolfannau astudio presennol yr undebau llafur, a hynny er mwyn sefydlu'r prosiect cyntaf o'i fath yn y DU.**

Cysylltu dysgu â threfnu undebol

Eleni, rhoddwyd deunyddiau newydd ar brawf ar gyfer cynrychiolwyr dysgu undebau, ar ddysgu, trefnu a datblygu'r gweithlu. Roedd cysylltu dysgu â threfnu undebol yn un o'r prif themâu yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Trafodwyd y pwnc yng nghynhadledd flynyddol y cynrychiolwyr dysgu undebau, ein cynhadledd drefnu gyntaf ac yng Nghynhadledd y Menywod. Yn 2007-2008 byddwn yn parhau i ddatblygu'r thema hon trwy ddod â chynrychiolwyr undeb a chynrychiolwyr dysgu undeb at ei gilydd ar gyrsiau i helpu i drefnu'r gweithle.

Cyrsiau newydd

Mae dau gwrs newydd, a ddatblygwyd gan TUC Cymru, ar fin cael eu cyflwyno ledled y DU.

Menywod ac Iechyd a Diogelwch

Bydd y cwrs hwn yn helpu cynrychiolwyr iechyd a diogelwch undebau i ddeall symptomau afiechyd a achoswyd gan waith ac ymchwilio a nodi deddfwriaeth, polisïau a gwybodaeth priodol. Bydd hefyd o gymorth i gynrychiolwyr sylwi ar broblemau a chyfleoedd i weithredu gan yr undebau llafur i ddelio ag afiechyd galwedigaethol.

Mentora Arweinwyr

Mae'r cwrs hwn wedi ei anelu at ysgrifenyddion rhanbarthol undebau ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r sgiliau, yr agweddau ac ymddygiad sy'n hyrwyddo mentora effeithiol. Caiff y sgiliau penodol sefydlu perthynas, gwrando, rhoi a derbyn adborth, defnyddio cwestiynau yn effeithiol, cynllunio gweithredu a gosod targedau eu harchwilio a'u hymarfer.

Llun gan Phil Rees

Aelodau'r Cyngor Cyffredinol a phresenoldeb

PRESENOLDEB 2006-2007

Mae Cyngor Cyffredinol TUC Cymru wedi penderfynu cyhoeddi manylion presenoldeb cyfarfodydd y Cyngor Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol yn yr Adroddiad Blynyddol. Wrth fynd i'r wasg roedd y Cyngor Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol wedi cynnal pedwar cyfarfod yn ystod y flwyddyn.

ENW	UNDEB	PRESENOLDEB		ENW	UNDEB	PRESENOLDEB	
		CYNGOR CYFFREDINOL	PWYLLGOR GWAITH			CYNGOR CYFFREDINOL	PWYLLGOR GWAITH
Brian Apsley	TC Wrecsam	2		Tom Jones	TC Gwynedd	1	
Pam Baldwin	UNSAIN	3	0				
Sheila Bearcroft	GMB	1		Jacqui Joseph	AMICUS (1)	0	
Nick Blundell	UCATT	3		Mariam Kamish	TC Merthyr	4	
John Burgham	TGWU	4	4	Bill King	UNSAIN	2	
Alison Burrowes	PCS	3		David Lewis	AMICUS	3	2
Allan Card	AMICUS	3		Liz Lewis	TGWU	2	
Ramon Corria	TC Caerdydd	4	3	Sandra Miller	UNSAIN	1	
Brian Curtis	RMT	3	2	Stan Moran	ASLEF	0	
Geraint Davies	NASUWT	3	4	Paul O'Shea	UNSAIN	3	2
Phillip Dixon	ATL	2		Susan Owen	USDAW	0	
Pamela Drake	GMB	1	2	John Phillips	GMB	2	
Rob Edwards	COMMUNITY	2		Andy Richards	TGWU	3	2
David Evans	NUT	3		Alwyn Rowlands	AMICUS	1	2
Jeff Evans	PCS	3	1	Kim Sandford	SOR	3	
Siân Gale	BECTU	2	2	Jayne Setchfield	NASUWT	1	
Allan Garley	GMB	3	3	Catherine Speight	AMICUS	2	3
Vaughan Gething	GMB	2	1	Jan Szabo	UNSAIN	0	
Ken Goodger	TC Casnewydd	4		Mark Thomas	TGWU	3	
Ken Hanbury	CWU	1		Wayne Thomas	NUM	2	
Heledd Hayes	NUT	3		Amanda Wakefield	BFAWU	2	
Margaret Hazell	AMICUS	0		Win Wearmouth	UNSAIN	2	
Gareth Howells	PROSPECT	3		Siân Wiblin	PCS	3	
Nick Ireland	USDAW	1		Ken Williams	TC Port Talbot	3	
Simon Jenkins	FBU	0					
Andrea Jones	AMICUS	3		Felicity Williams	Ex officio TUC Cymru	4	4
Ruth Jones	CSP	3	4				

(1) Yn anffodus bu farw Jacqui Joseph yn ystod y flwyddyn.

SYLWER: Nid yw'n bosibl rhestru'r holl resymau dros absenoldeb ond dylid nodi mai'r prif resymau a roddwyd oedd dyletswyddau undeb a salwch.

Union directory

Accord (760)

46, Old Bath Road
Charvill
Reading RG10 9QR
0118 934 1808
www.accord-myunion.org
info@accordhq.org

ACM (301)

10 De Montfort Street
Leicester LE1 7GG
0116 275 5076
www.acm.uk.com
administration@acm.uk.com

AMICUS (119,410)

7 St James Crescent
North Hill
Swansea
01792 470434
www.amicustheunion.org

ANGU (100)

16/17 High Street,
Tring, Herts HP23 5AH
01442 891122
www.angu.org.uk
info@angu.org.uk

ASLEF (557)

9 Arkwright Road,
London NW3 6AB
020 7317 8600
www.aslef.org.uk

ASPECT (240)

Woolley Hall
Woolley
Wakefield
West Yorkshire WF4 2JR
01226 83428
www.aspect.org.uk
naeiac@gemsoft.co.uk

ATL (5,618)

7 Northumberland Street
London WC2N 5RD
020 7930 6441
www.atl.org.uk
info@atl.org.uk

BACM (100)

17 South Parade
Doncaster DN1 2DR
01302 815551
www.bacmteam.org.uk
gs@bacmteam.org.uk

BDA (278)

5th Floor Charles House
148/149 Gt Charles Street
Birmingham
0121 200 8010
www.bda.uk.com
ir@bda.uk.com

BECTU (1,350)

Transport House
1 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9SD
029 2066 6557
www.bectu.org.uk
ddonovan@bectu.org.uk

BFAWU (3,000)

19a West Bute Street
Cardiff
029 2034 1806
www.bfawu.org
bfawucar@aol.com

BIOS (45)

Wrexham Maelor Hospital
Croesnewydd Road
Wrexham
01978 725108
www.orthoptics.org.uk

BSU (20)

Court Lodge,
Leonard Street,
Leek, Staffordshire
ST13 5JP
01538 399627
www.britanniasu.org.uk
bsu@themail.co.uk

CDNA (610)

Thames Valley University
18-22 Bond Street, Ealing,
London W5 5AA
020 8231 0180
www.cdna.tvu.ac.uk
cdna@tvu.ac.uk

COMMUNITY (9,775)

Pembroke House,
20 Cathedral Road,
Cardiff CF11 9LJ
029 2066 8800
www.community-tu.org
region 5@community-tu.org

CONNECT (675)

30 St George's Road,
Wimbledon,SW19 4BD
020 8971 6000
www.connectuk.org
union@connectuk.org

CSP (1,280)

Transport House,
1 Cathedral Road
Cardiff CF11 9SD
020 7306 6666
www.csp.org.uk
wales@csp.org.uk

CWU (14,000)

CWU Office, Briton Ferry
Neath SA11 2YR
01639 813211
www.cwu.org
info@cwu.org

CWYU (200)

302 The Argent Centre
60 Frederick Street
Birmingham B1 3HS
0121 244 3344
www.cywu.org.uk
kerry@cywu.org.uk

DIAGO Staff Association (6)

Sun Works
Park Royal Brewery
London NW10 7RR
020 8978 6069
Elizabeth.jude@diageo.com

EQUITY (1,800)

Transport House
1 Cathedral Road
Cardiff CF11 9SD
029 2039 7971
www.equity.org.uk

FBU (3,026)

Fire Brigade Building
4 Ffordd Yr Hengae
Pencoed
Bridgend CF35 5LJ
01656 867910
www.fbuwales.com
mair.jones@fbu.org.uk

FDA (503)

2 Caxton Street
London SW1H 0QH
020 7343 1111
www.fda.org.uk
head-office@fda.org.uk

GMB (51,000)

Williamson House
17 Newport Road
Cardiff CF24 0TB
029 2049 1260
www.gmb.org.uk

HCSA (150)

1 Kingsclere Road
Overton
Basingstoke
Hampshire RG25 3JA
01256 771777
www.hcsa.com
conspec@hcsa.com

Musicians Union (938)

199 Newport Road
Cardiff CF24 1AJ
029 2045 6585
www.musiciansunion.org.uk
wales@musiciansunion.org.uk

NAPO (319)

4 Chivalry Road
London SW11 1HT
020 7223 4887

NASUWT (17,220)

Unit C Greenwood Close
Cardiff Gate Business Park
Cardiff CF23 8RD
029 2054 6080
www.teachersunion.org.uk
rc-wales-
cymru@mail.nasuwt.org.uk

NAUTILUS UK (770)

Oceanair House
750/760 High Road
London E11 3BB
020 8989 6677
www.nautilusuk.org
enquiries@nautilusuk.org

NGSU (300)

37 Main Road
Middleton Cheney
Banbury
Oxfordshire OX17 2QT
01295 710767
www.ngsu.org.uk
ngsu@ngsu.org.uk

NUJ (542)

Headland House
308 Gray's Inn Road
London WC1X 8DP
020 7278 7916
www.nuj.org.uk
info@nuj.org.uk

NUM (10,000)

Woodland Terrace
Maesycoed
Pontypridd
Glamorgan CF37 1DZ
01443 404092
numsouthwales@fut.net

NUT Cymru (16,656)

122 Bute Street
Cardiff CF10 6AE
029 2049 1818
www.teachers.org.uk
cymru.wales@nut.org.uk

PCS (21,410)

Phoenix House
8 Cathedral Road
Cardiff CF1 9LJ
029 2066 6363
www.pcs.org.uk
carmenm@pcs.org.uk

PFA (74)

20 Oxford Court
Bishopsgate
Manchester M2 3WQ
0161 236 0575
www.givemefootball.com
info@thepfa.org.uk

POA (460)

Cronin House
245 Church Street
London N9 9HW
020 8803 0255
www.poauk.org.uk

PROSPECT (5,230)

Landore Court
51 Charles Street
Cardiff
029 2066 7770
www.prospect.org.uk
enquiries@prospect.org.uk

Cynghorau Undebau Llafur

Trades Union Councils

Brynmawr
4 Church Field
Brynmawr
NP23 4QA

Cardiff County / Sir Caerdydd
57 Three Arches Avenue
Cardiff
CF14 0NW

Conwy County / Sir Conwy
164 Dynerth Road
Rhos on Sea
Colwyn Bay
LL28 4UP

Cynon Valley / Cwm Cynon
8 Hamilton Street
Mountain Ash
CF45 3RM

Deeside / Glannau Dyfrdwy
61 Kingston Drive
Connahs Quay
Deeside
CH5 4TN

Ebbw Vale / Glyn Ebwy
2 Hafod Lane
Victoria Park
Ebbw Vale
NP23 8AS

Gwynedd
57 Bro Syr Ifor
Tregarth
Bangor
LL57 4DS

Llanelli
c/o UNISON -
Coleg Sir Gar
57 Tir Gof
Llanelli
SA14 8TP

Merthyr Tydfil County / Sir Merthyr Tudful
7 Brickfield Crescent
Merthyr Tydfil
CF47 0DW

Neath / Castell-nedd
8 Brag-Du
Pencoed
Bridgend
CF35 6JN

Newport County / Sir Casnewydd
3 Heather Road
Newport
NP9 7JZ

Pontypridd
3 Quarry Road
Maesycoed
Pontypridd
CF37 1JD

Port Talbot
40 Oakwood Street
Port Talbot
SA13 1BE

Rhondda
62 Eleanor Street
Tonypandy
Rhondda
CF40 1DR

Swansea County / Sir Abertawe
58 Station Road
Fforestfach
Swansea

Torfaen County / Sir Torfaen
35 Waun Road
Cwmbran
Torfaen
NP44 7JN

Vale of Clwyd / Bro Clwyd
21 Burns Drive
Rhyl
Denbighshire
LL18 3BN

Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg
24 Denbigh Way
Barry
Vale of Glamorgan
CF62 9AT

Wrexham County / Sir Wrecsam
6 Leahurst Way
Bradle
Wrexham
LL11 4BZ

Cyfeiriadur undebau

RMT (4,180)
Transport House
Victoria Street
Bristol BS1 6AY
0117 925 5018
www.rmt.org.uk

SCP (329)
1 Fellmongers Path
Tower Bridge Road
London SE1 3LY
0845 4503720
www.feetforlife.org

SOR (1,033)
Agriculture House
Winch Lane
Haverfordwest SA61 1RW
01437 767392
www.sor.org
kims@sor.org

T&GWU (51,000)
Transport House
1 Cathedral Road
Cardiff CF11 9SD
029 2039 4521
www.tgwu.org.uk
wales@tgwu.org.uk

TSSA (780)
Walkden House
10 Melton Street
London NW1 2EJ
020 7387 2101
www.tssa.org.uk
enquiries@tssa.org.uk

UCAC (3,948)
Pen Roc
Rhodfa'r Mor
Aberystwyth SY23 2AZ
01970 639950
www.athrawon.com
ucac@athrawon.com

UCATT (5,000)
199 Newport Road
Cardiff CF2 1AJ
029 2049 8664
www.ucatt.org.uk

UCU (6,241)
Unit 33,
The Enterprise Centre,
Bryn Road
Tondu, CF32 9BS
01656 668925
www.ucu.org.uk

UNISON (90,148)
UNISON House
Custom House Street
Cardiff CF10 1AP
029 2072 9004
www.unison-cymruwales.org.uk
cymruwales@unison.co.uk

URTU (1,052)
76 High Lane
Chorlton
Manchester M21 9EF
www.urtu.com
info@urtu.com
0800 526639

USDAW (20,955)
Unit 10, Oak Tree Court
Mulberry Drive,
Cardiff Gate Business Park
Pontprennau CF23 8RS
029 2073 1131
www.usdaw.org.uk
cardiff@usdaw.org.uk

WGGB (105)
15 Brittania Street
London WC1X 9JN
020 7833 0777
www.writersguild.org.uk